**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**
**Minister for Culture, Tourism and Sport**

**Julie James AC/AM**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Leader of the House and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DET/00124/18

Nick Ramsay AC, Russell George AC, Bethan Sayed AC
Cadeiryddion Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Mawrth 2018

Annwyl Nick, Russell & Bethan

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Chwefror mewn perthynas â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (y Memorandwm) drafft sy'n amlinellu'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) a ddatblygwyd yn sgil cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi a Deddf Cymru 2017 a ddilynodd.

Rwy'n ddiolchgar fod eich Pwyllgorau perthnasol wedi ystyried y Memorandwm a'r sylwadau a gyflwynwyd yn eich llythyr.

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i wella atebolrwydd sefydliadau darlledu i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i wylwyr a gwrandawyr Cymru. Yn dilyn Adolygiad Siartr y BBC, mae gan y BBC bellach atebolrwydd priodol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Wrth inni baratoi i benodi aelod o Fwrdd Ofcom i gynrychioli Cymru am y tro cyntaf, rydym yn ymwybodol o'r angen i sicrhau trefniadau tebyg ar gyfer darlledwyr eraill yn ogystal ag ar gyfer Ofcom ei hun. Cyflawnir hynny yn sgil y Memorandwm hwn.

Nodwn eich cais i gynnal gwrandawiad cyn penodi'r ymgeisydd dewisol ar gyfer Aelod Cymru i Fwrdd Ofcom. Fodd bynnag, nid ydym mewn sefyllfa i gytuno gyda hyn. Mae Ofcom yn gorff y DU a dylai'r cytundeb i benodi cynrychiolydd o Gymru barhau yn hawl Gweinidogion Cymru, yn gyson gyda'r broses ddiweddar ar gyfer penodi Aelod yr Alban i Fwrdd Ofcom. Fodd bynnag, ar ôl penodi, byddwn yn disgwyl Aelod Cymru o Fwrdd Ofcom i fod yn gwbl ymwybodol o'i rôl i sicrhau fod Ofcom yn atebol yn briodol i'r holl Bwyllgorau Cynulliad perthnasol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, Elin Jones AC. Byddwn yn awr yn sicrhau fod y Memorandwm yn cael ei arwyddo gan y sefydliadau perthnasol mor fuan â phosibl.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
Minister for Culture, Tourism and Sport

**Julie James AC/AM**
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip